

# ASESU MEWNOL

## Canllaw i Ganolfannau 2024

Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol

Tystysgrif mewn Lladin

Lefel Mynediad

Llwybrau Mynediad

Project Estynedig

Diploma Sylfaen Celf a Dylunio (FAD)

TAG UG a Safon Uwch

TGAU (A\* – G)

Lefel 1 / Lefel 2 Dyfarniadau Technegol

Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol

Bagloriaeth Cymru

Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Cymru)

*Yn y llyfryn hwn, ceir gwybodaeth am gymedroli gwaith a asesir yn fewnol a chyflwyno marciau a chanlyniadau – cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel 'marciau'. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn ymwneud â'r pynciau hynny lle mae'r gwaith yn cael ei anfon at y cymedrolwr neu CBAC neu ei uwchlwytho yn electronig drwy Surpass/IAMIS.*

*Mae cyfarwyddiadau pellach ar gyfer pynciau lle yr asesir gwaith gan gymedrolwr ymweld i'w gweld ar dudalennau'r pynciau unigol ar ein gwefan.*

*Mae cyfarwyddiadau ar wahân ar gael i'r cymwysterau [Sgiliau Hanfodol Cymru](#).*

***Dynodir cymwysterau dethol gan Cymwysterau Cymru yn dilyn cymeradwyaeth gan Ofqual. Gweler dogfen Eduqas ['Internal Assessment – A Guide For Centres'](#).***

# Cynnwys

## Tudalen

<b>Cyflwyniad</b>	<b>1</b>
<b>1. Gwybodaeth Gyffredinol</b>	<b>2</b>
1.1 Dyddiadau Allweddol	2
1.2 Marcio a Safoni Mewnol	3
1.3 Ansawdd y Cyfathrebu Ysgrifenedig	4
1.4 Anodi Gwaith	4
1.5 Dilysu	5
1.6 Apeliadau Mewnol	5
1.7 Cymedroli ac Adborth	6
1.8 Dychwelyd Gwaith i Ganolfannau a Chadw Gwaith	6
1.9 Ailddefnyddio Marciau ar gyfer Pynciau Unedol	7
1.10 'Trosglwyddo' Marciau Cydrannau/Unedau ar gyfer Pynciau Llinol	7
1.11 Camymddwyn	7
1.12 Ymddygiad Anfoddhaol gan Ganolfannau	8
1.13 Gwrthdaro Buddiannau Staff y Ganolfan	9
<b>2. Cyflwyno marciau ac adnabod samplau</b>	<b>10</b>
2.1 Dyrannu Pynciau i Ddeiliaid Cyfrifon Eilaidd y Wefan Ddiogel	10
2.2 Mewnbynnu Marciau	10
2.3 Mewnbynnu/Cyflwyno Marciau (drwy'r Wefan Ddiogel)	11
2.4 Cyflwyno Marciau (drwy EDI)	11
2.5 Adnabod Ymgeiswyr y Sampl	11
2.6 Newidiadau i'r Sampl a Ddewisir	12
2.7 Gwaith Ymgeiswyr Coll	12
2.8 Taflenni Marciau a Dogfennau Gofynnol Eraill	12
2.9 Cyflwyno Ffolderi (drwy'r Post)	12
2.10 Cyflwyno Gwaith (drwy'r Post)	13
2.11 Cyflwyno Samplau Asesu Mewnol (drwy e-gyflwyno)	13
2.12 Newidiadau i'r Sampl a Ddewisir (drwy e-gyflwyno)	14
2.13 Paratoi Gwaith Ymgeiswyr ar gyfer Uwchlwytho (drwy e-gyflwyno)	14
2.14 Ymgeiswyr Cofrestriad Hwyr	15
2.15 Newid Marciau Ar Ôl Eu Cyflwyno	15
2.16 Newid Marciau Ar Ôl Cyhoeddi'r Canlyniadau	15
<b>3. Arweiniad ar Drefniadau Consortiwm</b>	<b>16</b>
3.1 Rolau a Chyfrifoldebau – Canolfannau Cydlynu Consortiwm	16
3.2 Rolau a Chyfrifoldebau – Canolfannau Cofrestru	17
<b>4. Nodiadau ar Bynciau Unigol</b>	<b>18</b>
4.1 TGAU	18
4.2 TAG	24
4.3 CBAC Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol	30
4.4 Lefel 1 / Lefel 2 Dyfarniad Technegol	35
4.5 Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol	37
4.6 Tystysgrif mewn Lladin	41
4.7 Lefel Mynediad	42
4.8 Llwybrau Mynediad; Llwybrau Ieithoedd; Llwybrau Cymraeg Gwaith	44
4.9 Diploma Sylfaen Celf a Dylunio (FAD)	45

<b>4.10 Project Estynedig</b>	<b>47</b>
<b>4.11 Bagloriaeth Cymru</b>	<b>48</b>
<b>4.12 Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (IGCGP) (Cymru)</b>	<b>50</b>

<b>Atodiad Ffurflenni Datganiad Pennaeth y Ganolfan</b>	<b>52</b>
---	-----------

Noder: mae marciau asesiad mewnol y cymwysterau uchod yn cael eu casglu gan ddefnyddio ein system mewnbynnu marciau asesiad mewnol (IAMIS) ar y wefan ddiogel. Mae angen i unrhyw un sy'n mewnbynnu marciau gael manylion mewngofnodi i gael mynediad i'r wefan ddiogel. Gall Swyddog Arholiadau'r ganolfan ddarparu un o'r rhain.

# Cyflwyniad

Lluniwyd y canllaw hwn er mwyn cynnig cyngor ac arweiniad ar asesiadau mewnol y mae'r canolfannau'n eu marcio a CBAC yn eu cymedroli neu eu monitro'n allanol. Bwriad y ddogfen yw cynnig gwybodaeth fydd yn cefnogi staff canolfannau ac yn sicrhau gonestrwydd a diogelwch y broses asesu. Mae'r canllaw yn ymdrin â'r canlynol:

- dyddiadau allweddol
- marcio a safoni mewnol
- dilysu gwaith
- apeliadau mewnol
- cyflwyno marciau ac adnabod samplau
- cyflwyno a danfon gwaith i'w gymedroli
- cymedroli, adborth a dychwelyd gwaith i ganolfannau
- ailsefyll a throsglwyddo marciau
- camymddwyn
- gwybodaeth am bynciau unigol
- trefniadau consortiwm
- Ffurflenni Datganiad Pennaeth y Ganolfan.

**Rhaid** darllen y llawlyfr ar y cyd â'r dogfennau perthnasol:

- [Cyfarwyddiadau CBAC ar gynnal asesiadau dan reolaeth \(cymwysterau Galwedigaethol\)](#)
- [Cyfarwyddiadau'r CGC ar gynnal gwaith cwrs](#) (hen gymwysterau TAG, Lefel Mynediad a'r Project Estynedig)
- [Cyfarwyddiadau'r CGC ar gyfer cynnal asesiadau di-arholiad](#) (cymwysterau TAG a TGAU diwygiedig).

**Mae** fersiynau Cymraeg ar gael ar [wefan CBAC](#).

Yn ogystal â dilyn y gofynion cyffredinol sydd i'w gweld yn y cyfarwyddiadau uchod, **rhaid** i athrawon ddilyn y cyfarwyddiadau pwnc-benodol yn y fanyleb berthnasol.

Dylai pob canolfan, yn unol â gofynion y CGC (Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Canolfannau Cymeradwyedig) gael polisi ysgrifenedig yn ymwneud â'r asesiadau di-arholiad TAG/TGAU ynghyd â gweithdrefn apeliadau mewnol ysgrifenedig. Efallai y bydd Arolygydd Canolfannau'r CGC yn gwirio yn ystod ei ymweliad bod y dogfennau hyn ar gael.

**Rhaid** i Bennaeth y Ganolfan sicrhau bod gwaith yr ymgeiswyr, gan gynnwys samplau ychwanegol, ar gael i'w gymedroli o fewn y cyfnod gofynnol.

# ADRAN 1: GWYBODAETH GYFFREDINOL

## 1.1 DYDDIADAU ALLWEDDOL

Mae sawl proses fewnol i'w chwblhau cyn cyflwyno marciau i CBAC erbyn y terfyn amser gofynnol, yn cynnwys:

- marcio a safoni mewnol;
- sicrhau bod ymgeiswyr ac athrawon wedi llofnodi'r datganiad dilysu;
- sicrhau bod digon o amser ar gael i ymgymryd ag unrhyw apeliadau mewnol a'u cwblhau;
- sicrhau bod y caniatâd angenrheidiol gan y sawl sy'n cyflwyno marciau i fewngofnodi ar wefan ddiogel CBAC (deiliaid cyfrifon eilaidd). Dylech sicrhau eich bod yn trefnu deiliaid cyfrifon eilaidd ar gyfer y manylebau newydd sy'n cynnwys asesiad mewnol.

Mae canllawiau pellach ar gael yn nogfen y CGC [Hysbysiad i Ganolfannau](#).

Y terfynau amser i'r gwaith gael ei dderbyn gan y cymedrolwr neu ei uwchlwytho i Surpass/IAMIS yw:

Cymhwyster	Pwnc	Terfyn amser
TGAU	Saesneg Iaith (Uned 1) Cymraeg Iaith (Uned 1)	Cyfres Tachwedd - 5 Tachwedd Cyfres Mehefin - 24 Mawrth
	Drama (Uned 1) * Llenyddiaeth Saesneg (Uned 3)	24 Mawrth
	Pob pwnc sy'n weddill	5 Mai
TAG	Daearyddiaeth Uned 5	20 Mawrth
	Pob pwnc sy'n weddill	15 Mai
Lefel Mynediad	Pob Pwnc	5 Mai
Llwybrau Mynediad	Pob Pwnc	Cyfres Ionawr – 12 Rhagfyr Cyfres Mehefin – 5 Mai
Llwybrau Ieithoedd	Pob Pwnc	Cyfres Ionawr – 12 Rhagfyr Cyfres Mehefin – 5 Mai
Llwybrau Cymraeg Gwaith		Cyfres Ionawr – 12 Rhagfyr Cyfres Mehefin – 5 Mai
Tystysgrif mewn Lladin		5 Mai
Dyfarniadau a Thystysgrifau Technegol Galwedigaethol	Pob Pwnc	Cyfres Ionawr – 10 Rhagfyr Cyfres Mehefin – 5 Mai

Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol	Pob Pwnc	15 Mai
Bagloriaeth Cymru	Cenedlaethol / Sylfaen	Cyfres Ionawr – 22 Rhagfyr Cyfres Mehefin – 10 Mai
	Uwch	Cyfres Ionawr – 12 Ionawr Cyfres Mehefin – 24 Mai
	Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch	Cyfres Mehefin – 7 Mehefin
Project Estynedig		15 Mai
Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Cymru) (IGCGP)	Iechyd a Gofal Cymdeithasol (IGC): Egwyddorion a Chydestunau	Cyfres Ionawr – 10 Rhagfyr Cyfres Mehefin – 11 Mehefin
	Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (GChDDP): Ymarfer a Theori (Ar Gais)	Cyfnod Tachwedd – 11 Medi Cyfnod Ionawr – 29 Mawrth Cyfnod Mehefin – 26 Gorffennaf Cyfnod Awst – 8 Gorffennaf

\*Canolfannau prif ffrwd 24 Mawrth; Unedau Cyfeirio Disgyblion, ysgolion arbennig a chanolfannau Addysg Bellach 5 Mai

Er bod hyn yn hyblyg o ran CBAC, atgoffir canolfannau bod rhaid cael digon o amser rhwng y dyddiad a osodir yn fewnol i'r ymgeiswyr ar gyfer cwblhau'r gwaith a'r dyddiad cyflwyno swyddogol ar gyfer cymedroli er mwyn hwyluso'r broses o ddilysu, marcio'n gywir, cymedroli mewnol a chyflwyno marciau ar-lein. Dylai fod digon o amser yn ogystal i'ch canolfan ymgymryd ag unrhyw apeliadau mewnol a gyflwynir gan ymgeiswyr ac i gwblhau'r broses honno.

Rydym yn argymhell bod marciau'n cael eu cyflwyno ar IAMIS o leiaf 1 wythnos cyn y dyddiad ar gyfer anfon/uwchlwytho'r sampl.

## 1.2 MARCIO A SAFONI MEWNOL

Dylai canolfannau ddefnyddio deunyddiau cyfeirio ac archif (megis y deunydd enghreifftiol a ddarperir gan CBAC neu waith yn y ganolfan o'r flwyddyn flaenorol, lle y bo hwnnw ar gael) er mwyn helpu gosod safon y marcio o fewn y ganolfan.

Cyn marcio, mae'n ddefnyddiol ymgymryd ag ymarferiad marcio rhagarweiniol. Bydd athrawon yn marcio'r un sampl cymharol fach o waith er mwyn caniatáu i'r safonau marcio gael eu cymharu. Gellir cynnal yr ymarferiad ar adegau priodol yn ystod y cwrs ac mae iddo dair effaith fanteisiol: mae'n helpu i feithrin gwell cymaroldeb yn y safonau marcio; gall nodi'n gynnar yn y broses unrhyw athrawon nad yw eu safonau'n cyd-fynd â rhai eu cydweithwyr a gall lliniaru baich marcio trwm ar ddiwedd y cwrs.

Lle mae mwy nag un athro mewn canolfan wedi marcio'r gwaith mewn cydran/uned, dylid fel arfer safoni'r marcio gan ddefnyddio un o'r dulliau canlynol.

**Naill ai**, bydd yr athro sydd â gofal am y safoni mewnol yn ail-farcio sampl o waith sydd wedi'i farcio gan bob athro,

**Neu**, bydd yr holl athrawon sy'n gyfrifol am farcio cydran/uned yn cyfnewid gwaith wedi'i farcio (mewn cyfarfod dan arweiniad yr athro/athrawes sydd â gofal am y safoni mewnlol fyddai orau) ac yn cymharu eu safonau marcio.

Lle y canfyddir bod safonau yn anghyson, dylai'r athrawon hynny sy'n anghyson ail-ystyried ac, os yw'n briodol, newid marciau'r ymgeiswyr yr oeddent yn gyfrifol amdanynt. Dylai'r athro sydd â gofal am y safoni mewnlol wirio'r marciau newydd.

Os caiff y canolfannau unrhyw broblemau naill ai o ran cymhwyso'r cynlluniau marcio neu yn y broses safoni fewnlol, dylid ceisio cyngor gan yr arbenigwr pwnc perthnasol yn CBAC.

### **1.3 ANSAWDD Y CYFATHREBU YSGRIFENEDIG**

Ymgorfforir marcio 'Answdd y Cyfathrebu Ysgrifenedig' yn y rhan fwyaf o bynciau yn asesiad cyffredinol y cydrannau.

Mae'n hanfodol bwysig cadw at gyfarwyddiadau a llenwi taflenni marciau'n gywir fel bod marciau ymgeiswyr yn cael eu dyfarnu allan o'r cyfanswm cywir ar gyfer pob pwnc/cydran.

### **1.4 ANODI GWAITH**

Gellir cysylltu'r egwyddorion cyffredinol canlynol ar gyfer anodi gwaith ag unrhyw rai o'r gofynion pwnc-benodol.

- (a) Dylid dewis unrhyw un o'r tri dull canlynol:
  - (i) sylwadau crynodol naill ai ar y gwaith, ar y diwedd fel arfer, neu ar 'daflen glawr'
  - (ii) darnau allweddol o dystiolaeth yn cael eu nodi trwy'r gwaith gan anodi naill ai ar yr ymyl neu yn y testun
  - (iii) cyfuniad o (i) a (ii).
- (b) Dylai'r nodiadau ynglŷn â sut y dyfarnwyd marciau fod yn:
  - (i) clir a diamwys
  - (ii) priodol i natur a ffurf y gwaith
  - (iii) hwyluso safoni'r marcio o fewn y ganolfan
  - (iv) galluogi'r cymedrolwr i wirio'n rhwydd gymhwysiad y meini prawf asesu i'r marcio.
- (c) Dylai anodiadau, lle'n briodol:
  - (i) nodi ble mae'r meini prawf asesu wedi'u bodloni, e.e. trwy ysgrifennu ymadroddion allweddol o'r meini prawf (megis 'ymwybyddiaeth o werthoedd', 'yn dethol gwybodaeth', 'yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau') wrth y pwynt addas yn y gwaith
  - (ii) nodi unrhyw weithredoedd cynllunio a phrosesu nas ymgwymerwyd â hwy'n unigol a darparu manylion unrhyw gymorth neu awgrymiadau a roddir i'r ymgeisydd.



## 1.5 DILYSU

**Rhaid** i athrawon fod yn ddigon cyfarwydd â safon gyffredinol yr ymgeisydd i farnu p'un ag yw darn o waith a gyflwynir o fewn ei allu.

Rhaid i ymgeiswyr fod yn ymwybodol eu bod yn gyfrifol am sicrhau mai eu gwaith hwy yw'r gwaith a gyflwynir i'w asesu. Mae'r dogfennau CGC [Cyfarwyddiadau ar gynnal gwaith cwrs 2023 - 2024](#) a [Gwybodaeth i Ymgeiswyr – Asesiadau di-Arholiad 2023-2024 y CGC](#), sydd ar gael ar wefan y CGC ([www.jcq.org.uk](http://www.jcq.org.uk)), yn darparu cyfarwyddiadau ac arweiniad.

**Mae fersiynau Cymraeg ar gael ar [wefan CBAC](#).**

Ar gyfer pob pwnc gyda chydran/uned o asesu mewnol ysgrifenedig, cynhwysir datganiad dilysu fel rhan o'r daflen farciau/clawr ar gyfer ffolderi ymgeiswyr unigol. Gellir lawrlwytho'r rhain o'r tudalennau pwnc perthnasol ar wefan CBAC – [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk). Ar dudalen gartref CBAC, o dan y pennawd "Cymwysterau", cliciwch ar y pwnc perthnasol a dewiswch lefel yr arholiad, ac yna cliciwch ar "Adnoddau" a "Dogfennau Allweddol". Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd cyswllt cyflym â'r taflenni marciau ar dudalen y pwnc. Agorwch y ddogfen a'i chadw/hargraffu yn ôl yr angen.

**Rhaid i bob ymgeisydd (nid y rheini sydd yn rhan o'r sampl cymedroli yn unig) lofnodi'r datganiad dilysu. Gall methu â gwneud hynny gael ei ystyried yn gamweinyddu/camymddwyn.**

Rhaid i athrawon lofnodi'r datganiad dilysu ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau gan yr ymgeisydd yn cadarnhau'r canlynol:

- mai gwaith yr ymgeisydd dan sylw yn unig yw'r gwaith
- bod y gwaith wedi'i gwblhau o dan yr amodau gofynnol
- cedwir datganiadau ymgeiswyr wedi'u llofnodi ar ffeil.

Os nad yw'r athro yn gallu cadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith a gyflwynir, a'i fod wedi'i gwblhau o dan yr amodau gofynnol:

- peidiwch â derbyn gwaith yr ymgeisydd i'w asesu
- cofnodwch farc o sero am y gwaith a asesir yn fewnol.

Mae'n **rhaid** cadw datganiadau ymgeiswyr wedi'u llofnodi ar ffeil nes i'r dyddiad olaf ar gyfer adolygu'r cymedroli fynd heibio neu nes i unrhyw apêl, ymholiad camymddwyn neu ymholiad canlyniadau arall gael eu cwblhau, pa un bynnag fo hwyraf. Efallai y byddant yn destun arolygiad gan Arolygydd Canolfannau CGC.

Mae'n dderbyniol llofnodi'r dogfennau'n electronig. Bydd enwau sydd wedi'u teipio yn cael eu hystyried yn rhai sy'n rhwymol fel llofnod wedi'i ysgrifennu â llaw.

## 1.6 APELIADAU MEWNOL

Wrth gynllunio amserlen i gynnal asesiadau di-arholiad, mae angen dyrannu digon o amser sy'n cynnwys cyfnod o amser i gynnal a chwblhau apeliadau mewnol mewn perthynas â phenderfyniadau asesu'r ganolfan cyn y dyddiad cyflwyno. Mae'n ofynnol gan CBAC bod gan ganolfannau weithdrefn apeliadau mewnol ysgrifenedig a'u bod yn sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o fanylion y weithdrefn hon ac yn gwybod ymhle i'w gweld.

Rhaid i ymgeiswyr gael gwybod eu marciau a asesir gan y ganolfan. Mae gwybodaeth ar gael yn nogfen [Hysbysiad i Ganolfannau](#) y CGC.

Atgoffir canolfannau bod apeliadau mewnol yn cael eu cynnal yn annibynnol ar CBAC ac na fyddant yn cael unrhyw effaith ar benderfyniadau CBAC o ran dewis sampl neu gymedroli.

Awgrymw'n fod ymgeiswyr yn cael gwybod y gall eu marciau newid o ganlyniad i gymedroli allanol.

## 1.7 CYMEDROLI AC ADBORTH

Bydd y cymedrolwr yn ail-asesu'r gwaith sampl gan ddefnyddio'r meini prawf marcio sydd wedi'u cyhoeddi yn y fanyleb. Mae marciau'r cymedrolwr yn cael eu cymharu â marciau'r ganolfan ar gyfer y gwaith sampl. Os yw unrhyw un o'r gwahaniaethau rhwng marciau'r cymedrolwr a marciau'r ganolfan yn fwy na goddefiant penodedig, bydd marciau'r ganolfan fel arfer yn cael eu newid.

Os oes angen tystiolaeth bellach o farcio'r ganolfan, efallai bydd y cymedrolwr yn gofyn am beth o'r gwaith, neu'r holl waith, sy'n weddill. Os oes anghytuno sylweddol rhwng marc y ganolfan a marc y cymedrolwr, efallai y rhoddir marciau'r cymedrolwr i'r holl ymgeiswyr yn y ganolfan.

Danfonir y marciau terfynol sydd wedi'u cymedroli at ganolfannau gyda'r canlyniadau (fe'u mynegir fel marciau crai neu farciau GMU).

Bydd adroddiadau cymedrolwyr yn rhoi adborth ar:

- (i) effeithlonrwydd gweinyddiaeth y ganolfan
- (ii) priodoldeb y tasgau (yn yr achosion hynny pan fydd y ganolfan wedi'u gosod yn hytrach na'r corff dyfarnu) a'r ymdriniaeth o'r amcanion asesu
- (iii) cywirdeb asesiadau'r ganolfan yn erbyn y meini prawf ac mewn perthynas â'r safon y cytunwyd arni am y gydran/uned
- (iv) p'un ai yw marciau'r ganolfan wedi cael eu cymhwysu.

Gellir gwneud sylwadau ar gywirdeb asesiadau canolfan hyd yn oed os na wneir unrhyw gymhwysiad. Er enghraifft, os yw'r gwahaniaeth rhwng marciau'r cymedrolwr a marciau'r ganolfan prin o fewn y goddefiant penodedig, bydd y cymedrolwr fel arfer yn darparu cyngor ar safon y marcio.

Bydd adroddiadau'r cymedrolwyr ar gael ar y wefan ddiogel. Byddant ar gael i edrych arnynt ac i'w lawrlwytho yn unol â'r raddfa amser canlynol:

*Cyfres arholiadau Mehefin:* adroddiadau ar gael o'r diwrnod canlyniadau hyd at y Nadolig.

*Cyfres arholiadau Tachwedd:* adroddiadau ar gael o'r diwrnod canlyniadau hyd at ddiwedd mis Chwefror.

*Cyfres arholiadau Ionawr:* adroddiadau ar gael o'r diwrnod canlyniadau hyd at ddiwedd mis Mai.

## 1.8 DYCHWELYD GWAITH I GANOLFANNAU A CHADW GWAITH (AR GYFER CYFLWYNIADAU DRWY'R POST)

Bydd cymedrolwyr yn dychwelyd y gwaith yn syth i'r canolfannau cyn gynted â phosibl ar ôl cymedroli.

Bydd CBAC yn trin deunydd a gyflwynir i'w gymedroli gyda gofal ond ni all dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled neu ddifrod. Efallai y bydd CBAC yn cadw samplau i bwrpas enghreifftiau neu ar gyfer yr archifau (dylai canolfannau gael gwybod os yw hyn yn berthnasol iddyn nhw).

### **D.S. Dylid cynghori ymgeiswyr i beidio â chynnwys unrhyw eitemau gwerthfawr neu bersonol e.e. ffotograffau, tystysgrifau, ac ati.**

Cynghorir canolfannau bod **rhaid** iddynt gadw gwaith ymgeiswyr yn ddiogel tan ar ôl y dyddiad cau ar gyfer adolygu'r cymedroli neu tan y bydd adolygiad o'r marcio, apêl neu ymchwiliad i gamymddwyn wedi ei gwblhau, pa bynnag sydd hwyraf. Os yw'n broblem cadw'r gwaith, oherwydd natur y gwaith, rhaid i ryw fath o dystiolaeth fod ar gael (e.e. ffotograffig, tâp sain neu dâp fideo). Gofynnir i ganolfannau hefyd gadw cofnod o rifau arholiad ac enwau'r ymgeiswyr hynny y cynhwysir eu gwaith yn y sampl a anfonir at neu a welir gan gymedrolwyr. Gall fod angen y wybodaeth hon os gwneir unrhyw ymholiadau am ganlyniadau yn ddiweddarach.

## **1.9 AILDDEFNYDDIO MARCIAU AR GYFER PYNCIAU UNEDOL**

Ar yr amod y cedwir at y rheolau ar gyfer ailsefyll unedau (e.e. Gofynion terfynol TGAU, fel yr amlinellir yn y [Canllaw i ofynion ailsefyll](#), ni ddylai canolfannau Gofrestru ymgeiswyr am unrhyw unedau asesiad dan reolaeth/di-arholiad y mae'r ymgeiswyr am eu hailddefnyddio tuag at gymhwyster cyffredinol newydd.

**Cyfeiriwch at ein [Canllaw i ofynion ailsefyll](#) os yw ymgeisydd yn dymuno ailsefyll yn hytrach na throsglwyddo/ailddefnyddio cydran neu farc uned a asesir yn fewnol.**

## **1.10 'TROSGLWYDDO' MARCIAU CYDRANNAU/UNEDAU PYNCIAU LLINOL**

Gall ymgeiswyr, yn ystod oes y fanyleb, ail-ddefnyddio ("trosglwyddo") marciau mewn asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs ac asesiadau di-arholiad o gyfresi arholiadau blaenorol lle yr ardystiodd yr ymgeisydd y pwnc.

**Ni chaniateir i ymgeiswyr, dan unrhyw amgylchiadau, drosglwyddo marciau rhwng hen fanylebau a manylebau diwygiedig.**

Os bydd ymgeisydd yn dewis ailsefyll yr asesiad, y canlyniad newydd (yn hytrach na'r canlyniad gwreiddiol, hyd yn oed os yw'n ganlyniad gwell) fydd yn cyfrif tuag at radd y cymhwyster.

Lle mae ymgeisydd wedi ardystio ar ddau achlysur neu fwy o'r blaen, bydd y marc o'r asesiad di-arholiad mwyaf diweddar yn cael ei drosglwyddo, p'un a yw'r marc hwn yn uwch neu'n is (oni bai bod y marc hwnnw'n Absennol).

Os bydd ymgeisydd am ailddefnyddio ("trosglwyddo") marciau tuag at gymhwyster cyffredinol newydd, nodwch hyn trwy fewnbynnu C neu CF ar y system mewnbynnu marciau'r asesiad mewnol (IAMIS). **Peidiwch**, dan unrhyw amgylchiadau, â mewnbynnu'r marc i'w drosglwyddo.

**Cyfeiriwch at ein [Canllaw i ofynion ailsefyll](#) os yw ymgeisydd yn dymuno ailsefyll yn hytrach na throsglwyddo/ailddefnyddio cydran neu farc uned a asesir yn fewnol.**

## **1.11 CAMYMDDWYN**

Lle caiff unrhyw gamymddwyn ei ddarganfod cyn i'r datganiad dilysu gael ei lofnodi, nid oes angen cyflwyno adroddiad ar hyn i CBAC, ond yn hytrach dylid ymdrin â'r mater yn unol â gweithdrefnau mewnol y ganolfan. Pan fydd achos o gamymddwyn gan aelod o staff yn cael ei ddarganfod mewn gwaith cwrs neu asesiadau di-arholiad, rhaid i bennaeth y ganolfan hysbysu'r corff dyfarnu ar unwaith, heb ystyried a yw'r ymgeisydd (ymgeiswyr) wedi llofnodi'r ffurflenni dilysu ai peidio.

Os oes amheuaeth bod camymddwyn wedi digwydd neu gamymddwyn yn cael ei ddarganfod ar ôl i'r ymgeisydd lofnodi'r datganiad dilysu, rhaid i'r ganolfan ddefnyddio'r ffurflen CGC M1 i gyflwyno adroddiad am y camymddwyn. Yn achos staff canolfan/canolfannau a amheuir, rhaid i'r ganolfan hysbysu CBAC gan ddefnyddio'r ffurflen CGC M2, ni waeth a yw'r ffurflenni dilysu wedi'u lofnodi gan yr ymgeisydd (ymgeiswyr) ai peidio. Mae canllawiau pellach ar adrodd camymddwyn ar gael yn y ddogfen CBAC, [Canllaw ar adrodd am ac ymchwilio i gamymddwyn a'r ddogfen CGC \*Amau Camymddwyn: Polisiâu a Gweithdrefnau 2023-2024\*](#).

**Mae fersiynau Cymraeg ar gael ar [wefan CBAC](#).**

Dylid anfon y ffurflen wedi'i llenwi dros e-bost at [camymddwyn@cbac.co.uk](mailto:camymddwyn@cbac.co.uk).

Awgrymir y posibilrwydd bod llên-ladrad wedi digwydd gan sawl ffactor, a dylai athrawon fod yn ymwybodol o'r rhain. Mae arweiniad pellach ar ganfod llên-ladrad i'w gael yn nogfen y CGC [Llên-ladrad mewn Asesiadau](#). Mae CBAC yn defnyddio meddalwedd i ganfod llên-ladrad posibl yng ngwaith ymgeiswyr.

Centre staff must familiarise themselves with the relevant [WJEC Instructions for conducting controlled assessment](#), JCQ [Instructions for conducting coursework](#) and JCQ [Instructions for conducting non-examination assessments](#) together with the subject specification requirements. Knowledge of the requirements will assist centres and teachers in maintaining the integrity and security of the assessment process. Centres and centre staff who do not comply with the requirements will be investigated under the JCQ Suspected Malpractice procedure. Rhaid i **bob** ymgeisydd a'i athro lofnodi'r datganiad dilysu. Mae angen y ffurflenni pan fydd CBAC yn derbyn honiadau o amau camymddwyn.

## 1.12 YMDDYGIAD ANFODDHAOL GAN GANOLFANNAU

Darperir canllawiau pellach i Bennaeth y Ganolfan pan fydd athrawon neu ganolfannau unigol yn methu â bodloni gofynion CBAC ar gyfer gwaith a asesir yn fewnol. Lle nodir bod problemau arwyddocaol, efallai y bydd angen i dasgau/cynlluniau marcio dilynol gael eu cymeradwyo gan CBAC ac i drefniadau'r ganolfan ar gyfer marcio a safoni gael eu monitro.

Defnyddir y canllawiau canlynol fel modd o benderfynu a oes unrhyw faterion sydd angen eu trafod gyda chanolfannau.

- (a) A osodir tasgau o fewn gofynion y fanyleb?
- (b) A yw'r cynlluniau marcio/meini prawf asesu a ddyfeisir gan ganolfannau yn glir, yn ddiamwys ac yn addas i'w gweithredu'n gyson? Ydyn nhw wedi cael eu cymhwyso'n briodol?
- (c) A ddilynwyd cyfarwyddiadau gweinyddol a threfniadaethol CBAC?
- (ch) A gafodd y gwaith a asesir yn fewnol ei anodi'n gywir?

- (d) A ddilyswyd y gwaith a asesir yn fewnol yn gywir, yn arbennig yn yr achosion hynny lle y gallai rhai gweithgareddau fod wedi digwydd tu allan i'r ysgol?
- (dd) Os rhoddir manylion unrhyw gymorth a roddwyd i ymgeiswyr arbennig sydd y tu hwnt i'r hyn a roddir i'r grŵp yn gyffredinol, a yw natur cymorth o'r fath o fewn y ffiniau a bennir yn y fanyleb?
- (e) A yw'r safoni o fewn y ganolfan yn effeithiol ac o fewn gofynion CBAC?

### 1.13 GWRTHDARO BUDDIANNAU STAFF Y GANOLFAN

Rhaid i staff y ganolfan lenwi [ffurflen datgan diddordeb](#) yn yr amgylchiadau canlynol:

- (i) os ydynt wedi marcio neu wedi bod yn ymwneud â safoni gwaith eu plentyn eu hunain yn fewnol. **Rhaid** cyflwyno'r gwaith i'w gymedroli hefyd hyd yn oed os na chaiff ei nodi yn y sampl.
- (ii) os oes ganddynt fynediad i gynnwys deunyddiau di-arholiad cyfrinachol a allai fod o fudd i'w plentyn yn eu canolfan eu hunain neu ganolfan arall e.e. asesiadau i'w cymryd dros gyfnod amser.

## ADRAN 2: CYFLWYNO MARCIAU AC ADNABOD SAMPLAU

### Crynodeb

Y cam cyntaf, wrth baratoi i fewnbynnu marciau, yw gofyn i'ch Swyddog Arholiadau am gyfrinair i fewngofnodi ar y wefan ddiogel fel deiliaid cyfrif eilaidd.

Gwiriwch bod gennych fynediad i'r maes/meysydd perthnasol, ar gyfer y pwnc/pynciau perthnasol (gweler 2.1).

Ar ôl cyflwyno a phrosesu cofrestriadau eich canolfan, mae enwau/rhifau eich ymgeiswyr yn cael eu rhoi'n awtomatig ar y system. Gallwch gyflwyno marciau cyn gynted ag y bydd y cyfnod cyflwyno wedi dechrau (gweler 2.2).

**Rhaid** mewnbynnu a chyflwyno'r marciau/graddau erbyn y terfyn amser (gweler Adran 4).

Unwaith y bydd y marciau wedi'u cyflwyno, bydd y system yn rhoi sampl o ymgeiswyr yn awtomatig i chi (gweler Adran 3 am gyfarwyddiadau ar wahân yn ymwneud â threfniadau consortiwm).

### 2.1 DYRANNU PYNCAU I DDEILIAID CYFRIFON EILAIDD Y WEFAN DDIOGEL

Gyda'r system mewnbynnu marciau asesiad mewnol (IAMIS), gall deiliaid y prif gyfrif (y swyddog arholiadau fel arfer) ddyrannu pynciau penodol i'r deiliaid cyfrifon eilaidd (e.e. athrawon) fydd yn bwydo marciau asesiad mewnol ac yn prosesu'r samplau. Er mwyn gwneud hyn, dylai deiliaid y prif gyfrif fewngofnodi ar y wefan ddiogel, clicio ar y botwm "Gweinyddu'r Cyfrif" a newid y gosodiadau gan ddefnyddio'r cwymplenni a ddangosir.

### 2.2 MEWNBYNNU MARCIAU

Bydd IAMIS ar gael i ddeiliaid y cyfrif dynodedig ar y dyddiadau canlynol, ar ôl i ymgeiswyr gael eu derbyn a'u prosesu gan CBAC:

Cymhwyster (Cymwysterau)	IAMIS yn agor
IGCGP: GChDDP Ymarfer a Theori	11 Medi (cyfnod Tachwedd)
TGAU Saesneg Iaith TGAU Cymraeg Iaith	12 Hydref (Cyfres Tachwedd)
Llwybrau Mynediad Llwybrau Ieithoedd Llwybrau Cymraeg Gwaith Dyfarniadau Technegol Galwedigaethol IGCGP: IGC Egwyddorion a Chyd-destunau	20 Tachwedd (Cyfres Ionawr)
Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen	1 Rhagfyr (cyfres Ionawr)
Bagloriaeth Cymru Uwch	8 Rhagfyr (cyfres Ionawr)
IGCGP: GChDDP Ymarfer a Theori	5 Chwefror (cyfnod Ionawr)
TGAU Tystysgrif mewn Lladin Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol Lefel Mynediad Llwybrau Mynediad Llwybrau Ieithoedd Llwybrau Cymraeg Gwaith	10 Mawrth (Cyfres Mehefin)

TAG Tystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol Project Estynedig CDS (FAD) IGCGP: IGC Egwyddorion a Chyd-destunau	1 Ebrill (Cyfres Mehefin)
Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen	25 Ebrill (Cyfres Mehefin)
Bagloriaeth Cymru Uwch	10 Mai (Cyfres Mehefin)
Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch	
IGCGP: GChDDP Ymarfer a Theori	6 Mai (cyfnod Mehefin)
IGCGP: GChDDP Ymarfer a Theori	8 Gorffennaf (cyfnod Awst)

### 2.3 MEWNBYNNU/CYFLWYNO MARCIAU ASESAD MEWNOL (DRWY'R WEFAN DDIOGEL)

Unwaith y bydd y cofrestradau wedi'u cyflwyno i CBAC a'u prosesu, bydd angen i chi fewngofnodi ar [wefan ddiogel CBAC](#) a dal y cyrchwr dros y tab 'Asesu Mewnol' cyn clicio ar y tab 'Marciau/Canlyniadau Aseidiadau Mewnol'. Bydd tudalen we ar gael i bob cydran/uned aseiad mewnol y mae'r ganolfan wedi cofrestru amdani gydag enwau a rhifau'r ymgeiswyr wedi'u gosod arni'n barod. Bydd angen i chi roi marciau/graddau/canlyniadau (fel y bo'n berthnasol) **pob** ymgeisydd i mewn yn y lleoedd gwag a ddarperir.

Mewn **rhai pynciau**, bydd angen i chi hefyd fewnbynnu manylion (h.y. llythrennau blaen) grŵp addysgu pob ymgeisydd.

Unwaith y bydd marciau **pob** ymgeisydd wedi'u mewnbynnu yna gellir cyflwyno'r marciau. Unwaith y cyflwynir marciau bydd IAMIS yn dangos ar unwaith enwau'r ymgeiswyr hynny y dewiswyd eu gwaith yn awtomatig i'w gymedroli.

Unwaith y bydd y marciau **wedi'u cyflwyno**, ni fydd yn bosibl eu newid ar-lein (gweler 2.15).

### 2.4 CYFLWYNO MARCIAU ASESAD MEWNOL (TRWY EDI)

Gall canolfannau gyflwyno marciau aseiad mewnol trwy EDI (cyfnwid data electronig). Gellir cael rhagor o wybodaeth am gofrestradau EDI trwy ffonio'r llinell gymorth EDI ar 029 2026 5169.

Pan gyflwynir marciau aseiad mewnol trwy EDI, rhaid caniatáu amser i brosesu'r ffeiliau EDI (hyd at 72 awr). Ar ôl prosesu'r ffeiliau bydd y marciau a gyflwynwyd yn cael eu rhoi'n awtomatig ar IAMIS.

Yna, bydd angen i chi fewngofnodi ar [wefan ddiogel CBAC](#) a clicio ar y tab 'asesu mewnol' er mwyn mewnbynnu manylion (h.y. llythrennau blaen) grŵp addysgu pob ymgeisydd (i rai pynciau) ac i **gyflwyno'r marciau**. Unwaith y cyflwynir y marciau bydd IAMIS yn dangos enwau'r ymgeiswyr hynny y dewiswyd eu gwaith yn awtomatig i'w gymedroli.

### 2.5 ADNABOD YMGEISWYR Y SAMPL

Bydd IAMIS yn adnabod yn awtomatig yr ymgeiswyr hynny sydd i'w cynnwys yn y sampl y mae eu gwaith i'w anfon / uwchlwytho.

Os yw gwaith yn cael ei gwblhau gan ddefnyddio ysgrifennydd, yna **rhaid** anfon y gwaith hwn at y cymedrolwr yn ogystal â gwaith y sampl y gofynnwyd amdano.

Hefyd, **rhaid** i daflen glawr wedi'i llofnodi gan yr ysgrifennydd a'i gwrth lofnodi gan bennaeth y ganolfan neu'r swyddog arholiadau gael ei chysylltu â gwaith o'r fath.

Os yw athro wedi marcio neu wedi bod yn rhan o safoni gwaith eu plentyn yn fewnol, rhaid hefyd anfon/uwchlwytho'r gwaith hwn i'w gymedroli (gweler 1.13).

Gallai CBAC ofyn am ragor o samplau o waith i'w cyflwyno i'r cymedrolwyr os ystyrir bod hyn yn angenrheidiol.

**DS: Ni fydd y sampl ar gyfer TAG Addysg Gorfforol (Uned 2 ac Uned 4) yn cael ei gynhyrchu gan IAMIS. Bydd y sampl wedi ei ddewis pan fydd taflenni marciau wedi eu cyflwyno ar ddechrau mis Mawrth. Yn ychwanegol, ar gyfer Llwybrau Mynediad (unedau ymarferol Byw'n Iach a Ffitrwydd) mae'n rhaid i ganolfannau ddewis eu samplau eu hunain.**

## 2.6 NEWIDIADAU I'R SAMPL A DDEWISIR

Ni fydd IAMIS yn caniatáu i chi dynnu ymgeiswyr o'r sampl a ddewiswyd. Fodd bynnag, bydd IAMIS yn caniatáu i chi ychwanegu ymgeiswyr ychwanegol gan ddefnyddio'r cyfleuster blwch ticio.

Os yw'r sampl yn cynnwys ymgeisydd sydd â'i waith yn anghyflawn yna dylech nodi ar IAMIS yr ymgeisydd nesaf (naill ai'n uwch neu'n is) sydd â'i waith yn gyflawn. **Ni ddylid anfon y gwaith anghyflawn at y cymedrolwr.**

Rhaid anfon nodyn o eglurhad at y cymedrolwr gyda'r ffolderi os yw'r sampl y bydd y ganolfan yn ei anfon yn wahanol i'r sampl a ddewiswyd gan IAMIS.

Lle mae angen diwygio sampl Bagloriaeth Cymru, rhaid ceisio cyngor o [cbc@cbac.co.uk](mailto:cbc@cbac.co.uk) yn y lle cyntaf.

## 2.7 GWAITH YMGEISWYR COLL

Os collodd canolfan waith ymgeisydd heb unrhyw fai ar yr ymgeisydd hwnnw, a bod y ganolfan yn gallu dilysu bod y gwaith wedi'i gwblhau neu wedi'i gwblhau'n rhannol a'i fod wedi'i fonitro wrth gyflawni'r gwaith hwnnw, yna gall yr ymgeisydd fod yn gymwys i gael marc o hyd.

Rhaid cyflwyno [JCQ/LCW Ffurflen 15](#) i CBAC i adrodd am unrhyw waith a gollir.

Os yw'r gwaith wedi'i gwblhau a'i farcio, dylid cyflwyno'r marc ar IAMIS fel arfer a chyflwyno JCQ/LCW Ffurflen 15 fel arfer.

Os nad yw'r gwaith wedi'i gwblhau a/neu ei farcio, **ni ddylid** cyflwyno'r marc ar IAMIS. Dylid nodi marc wedi'i amcangyfrif ar JCQ/LCW Ffurflen 15 pan gyflwynir honno. Bydd marciau amcangyfrifol yn cael eu hystyried gan CBAC. Ni ddylid amcangyfrif marciau am waith nad yw wedi'i weld.

I gyflwyno ffurflenni, neu i gael arweiniad pellach os mai dim ond rhan o'r gwaith sydd ar goll, neu am unrhyw fater arall yn ymwneud â gwaith coll, cysylltwch â:

[specialrequirements@wjec.co.uk](mailto:specialrequirements@wjec.co.uk)

## 2.8 TAFLENNI MARCIAU A DOGFENNAU GOFYNNOL ERAILL

Rhaid i'r taflenni marciau ymgeisydd unigol (taflenni clawr), y dylid eu hanfon gyda phroject/ffolder pob ymgeisydd a gyflwynir i'w gymedroli, gynnwys datganiad dilysu'r



ymgeisydd. Rhaid lawrlwytho taflenni clawr o dudalen y pwnc berthnasol ar [wefan CBAC](#). Mae'r dogfennau i'w cael dan 'Adnoddau' ac yna 'Dogfennau Allweddol'.

Dylai canolfannau Bagloriaeth Cymru ddefnyddio'r Llyfryn i Ymgeiswyr sydd ar gael o adran adnoddau'r wefan ddiogel ar gyfer cyflwyniadau Cenedlaethol/Sylfaenol ac Uwch.

Mae gwybodaeth bellach i'w cael ar y dudalen Gweinyddu:  
[https://www.cbac.co.uk/cymwysterau/tystysgrif-her-sgiliau-bagloriaeth-cymru-uwch/#tab\\_overview](https://www.cbac.co.uk/cymwysterau/tystysgrif-her-sgiliau-bagloriaeth-cymru-uwch/#tab_overview)

## 2.9 CYFLWYNO FFOLDERI (DRWY'R POST)

Gellir rhoi cyfarwyddiadau penodol ynglŷn â chyflwyno gwaith yng nghanllawiau'r pynciau unigol. Oni nodir yn wahanol, dylid talu sylw i'r pwyntiau canlynol:

- (i) Dylid cyflwyno gwaith pob ymgeisydd mewn ffolder/ffeil maint A4, gyda **theitl y fanyleb, enw'r ganolfan a'i rhif, enw'r ymgeisydd a'i rif arholiad** wedi'u hysgrifennu arni'n glir.
- (ii) **Ni** ddylid defnyddio ffeil fodrwy (swmpus i'w phostio) a waledi plastig (anodd gweld y gwaith).
- (iii) Lle mae gwaith yn cynnwys nifer o aseiniadau dylid eu gosod yn y ffolder yn yr un drefn ag ar y daflen glawr.
- (iv) Caniateir defnyddio prosesyddion geiriau wrth gynhyrchu gwaith, onid yw gofynion y fanyleb yn cyfyngu ar hynny.

## 2.10 CYFLWYNO GWAITH (DRWY'R POST)

Cymhwyster (Cymwysterau)	Manylion cymedrolwyr ar gael o (tua.)
TGAU Llenyddiaeth Saesneg	10 Mawrth (Cyfres Mehefin)
TAG CDS (FAD)	1 Ebrill (Cyfres Mehefin)
Pob pwnc TGAU sy'n weddill	20 Ebrill (Cyfres Mehefin)

Gellir argraffu manylion y cymedrolwr ar labeli gwag, ac yna dylid danfon y gwaith sydd wedi'i asesu'n fewnol a'r taflenni clawr ar gyfer yr ymgeiswyr yn y sampl, at y cymedrolwr.

D.S.: Ni fydd unrhyw fanylion cymedrolwr yn cael eu rhoi ar gyfer pynciau sy'n gofyn am uwchlwytho gwaith trwy Surpass neu IAMIS.

## 2.11 CYFLWYNO SAMPLAU ASESU MEWNOL (DRWY E-GYFLWYNO)

E-gyflwyno yw'r broses o gyflwyno gwaith ymgeiswyr ar ffurf electronig i'w gymedroli. Mae CBAC yn defnyddio Surpass A/NEU iamis, sef llwyfan diogel seiliedig ar y we, ar gyfer y broses hon.

Mae ein [tudalen we](#) E-Gyflwyno yn darparu gwybodaeth, help a chanllawiau sy'n ymwneud â phob agwedd ar y broses

Mae unrhyw fanylion mewngofnodi a ddyrannwyd i ganolfannau mewn cyfresi arholiadau blaenorol yn dal i fod yn ddilys. Dylai swyddogion arholiadau fynd i <https://wjec.surpass.com> i sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad i'w cyfrifon. Os, am unrhyw reswm, nad ydynt yn gallu cael mynediad, defnyddiwch y swyddogaeth "ddim yn gallu cael mynediad at eich cyfrif?" ar y dudalen fewngofnodi.

Ar gyfer canolfannau nad ydynt wedi cofrestru ar gyfer "pwnc e-gyflwyno" yn flaenorol, byddant yn cael e-bost gan [noreply@surpass.com](mailto:noreply@surpass.com) gyda chyfarwyddiadau ar sut i sefydlu eich manylion mewngofnodi Surpass cyn cyfres yr haf.

### Crynodeb

Ar ôl cyflwyno'r marciau, bydd sampl o ymgeiswyr yn cael ei ddewis yn awtomatig gan IAMIS.

O fewn 48 o oriau gwaith i gynhyrchu'r sampl gan IAMIS, bydd y codau allwedd (un ar gyfer pob ymgeisydd yn y sampl) ar gael i'ch swyddogion arholiadau dan y tab INVIGILATE ar [Surpass](#).

I uwchlwytho'r gwaith a dogfennau gofynnol eraill ewch i <https://wjec.Surpass.com/secureassess/htmldelivery> a defnyddiwch y codau allwedd perthnasol ar gyfer pob ymgeisydd yn y sampl.

Ar ôl cwblhau'r uwchlwytho, gall eich swyddog arholiadau wirio dan y tab INVIGILATE ar Surpass. Mae tic gwyrdd wrth ochr cod allwedd yr ymgeisydd dan y tab INVIGILATE yn dynodi bod yr uwchlwytho wedi llwyddo.

## 2.12 NEWIDIADAU I'R SAMPL A DDEWISIR (DRWY E-GYFLWYNO)

Ni fydd IAMIS yn caniatáu i chi dynnu ymgeiswyr o'r sampl a ddewiswyd. Fodd bynnag, bydd IAMIS yn caniatáu i chi ychwanegu ymgeiswyr ychwanegol gan ddefnyddio'r cyfleuster blwch ticio.

Os yw'r sampl yn cynnwys ymgeisydd sydd â'i waith yn anghyflawn yna dylech ddefnyddio'r blychau ticio ar IAMIS i nodi'r ymgeisydd nesaf (naill ai'n uwch neu'n is) sydd â'i waith yn gyflawn. **Ni ddylid llwytho'r gwaith anghyflawn i IAMIS neu Surpass.** Cofiwch fod codau allwedd (sy'n angenrheidiol i uwchlwytho gwaith) yn cael eu cynhyrchu o fewn (ond hyd at 48 awr) i'r samplau gael eu cynhyrchu. Felly, mae angen caniatáu digon o amser rhwng cyflwyno marciau a newid y sampl cyn cael gafael ar godau allwedd ac uwchlwytho gwaith er mwyn bodloni'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwaith.

Rhaid uwchlwytho nodyn o eglurhad i'r cymedrolwr gyda'r ffolderi os yw'r sampl y bydd y ganolfan yn ei anfon yn wahanol i'r sampl a ddewiswyd gan IAMIS.

Lle mae angen diwygio sampl Bagloriaeth Cymru, rhaid ceisio cyngor o [cbc@cbac.co.uk](mailto:cbc@cbac.co.uk) yn y lle cyntaf.

## 2.13 PARATOI GWAITH YMGEISWYR AR GYFER UWCHLWYTHO (DRWY E-GYFLWYNO)

Mae cyfarwyddiadau pwnc-benodol ar gyfer cyflwyno gwaith ar gael yma: <https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/e-gyflwyno/>

Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn cynnwys gwybodaeth am:

- (i) Mathau o ffeiliau
- (ii) Y nifer mwyaf o ffeiliau

- (iii) Uchafswm maint y ffeiliau i'w huwchlwytho
- (iv) Enwi ffeiliau
- (v) Defnyddio codau allwedd
- (vi) Newid maint ffeiliau mawr

## 2.14 YMGEISWYR COFRESTRIAD HWYR

Gellir mewnbynnu marciau ymgeiswyr cofrestriad hwyr ar IAMIS, **ar yr amod bod cofrestriad yr ymgeisydd eisoes wedi'i gyflwyno i CBAC a'i brosesu.**

I fewnbynnu marc unrhyw ymgeisydd nad yw ei enw ar y rhestr ar IAMIS, dylai'r swyddog arholiadau gyflwyno'r cofrestriad angenrheidiol cyn gynted â phosibl.

Unwaith y bydd y swyddog arholiadau wedi anfon y wybodaeth hon i CBAC, dylid caniatáu 72 awr cyn rhoi cynnig ar fewnbynnu a chyflwyno'r marc.

Mae CBAC yn monitro canolfannau sy'n ychwanegu ymgeiswyr ar ôl i'r sampl gael ei gynhyrchu. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd CBAC yn cysylltu â Phennaeth y Ganolfan ac yn gofyn am wybodaeth ychwanegol.

## 2.15 NEWID MARCIAU AR ÔL EU CYFLWYNO

Unwaith y bydd marciau wedi'u cyflwyno trwy IAMIS ni ellir eu newid gan y ganolfan. Os sylwir bod marc anghywir wedi'i gyflwyno, yna rhaid i ganolfannau lenwi a chyflwyno'r ffurflen gais, a fydd i'w chael yn y rhan 'Asesu Mewnol' ar y wefan ddiogel.

Noder y byddwn yn cysylltu â chi am ragor o wybodaeth os oes angen. Os na fyddwn yn cysylltu â chi yna bydd eich cais am newid marc/gradd yn cael ei weithredu.

Mae CBAC yn monitro canolfannau sy'n gwneud ceisiadau i newid marciau ymgeiswyr. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd CBAC yn cysylltu â Phennaeth y Ganolfan ac yn gofyn am wybodaeth ychwanegol.

## 2.16 NEWID MARCIAU AR ÔL CYHOEDDI'R CANLYNIADAU

Os bydd athrawon yn sylwi ar ôl i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi bod marc anghywir wedi'i gyflwyno, rhaid i Bennaeth y Ganolfan anfon cais ysgrifenedig at yr adran berthnasol i gael newid y marc, gan nodi'r amgylchiadau'n glir. Rhaid i daflen farciau fewnol wedi'i llenwi a'i llofnodi, gyd-fynd â'r cais ysgrifenedig hwn a gellir gofyn hefyd am y gwaith gwirioneddol (neu gopi). Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyfeirio at y swyddog pwnc. Bydd y dystiolaeth hon yn cael ei hystyried ac yn dilyn hynny gall y marc gael ei newid neu gall y cais gael ei wrthod. **Rhaid** i bob cais i newid marc a gyflwynwyd gan ganolfan ar gyfer cydrannau / unedau sy'n cael eu hasesu'n fewnol gael ei dderbyn erbyn:

**20 Medi (cyfres arholiadau Mehefin)**  
**15 Chwefror (cyfres arholiadau Tachwedd)**  
**9 Ebrill (cyfres arholiadau Ionawr)**

**TGAU**  
[tgau@cbac.co.uk](mailto:tgau@cbac.co.uk)

**Bagloriaeth Cymru**  
[wbq@cbac.co.uk](mailto:wbq@cbac.co.uk)

**TAG**  
[tag@cbac.co.uk](mailto:tag@cbac.co.uk)

**Project Estynedig**  
[llwybrau@cbac.co.uk](mailto:llwybrau@cbac.co.uk)

**Lefel Mynediad/Lladin/  
Cymwysterau Llwybrau**  
[llwybrau@cbac.co.uk](mailto:llwybrau@cbac.co.uk)

## **ADRAN 3: ARWEINIAD AM DREFNIADAU CONSORTIWM**

(Dim ond eu hangen os bydd dwy neu fwy o'r canolfannau sy'n aelodau'n cofrestru ymgeiswyr am waith a asesir gan y ganolfan)

Efallai y bydd rhai canolfannau'n ymwneud â threfniadau consortiwm i un neu fwy o fanylebau. Bydd hyn fel arfer yn digwydd pan fydd grŵp o ganolfannau'n sefydlu trefniadau addysgu ar y cyd mewn pwnc, a'r ymgeiswyr yn mynychu un ganolfan i'w haddysgu.

Mewn llawer o drefniadau consortiwm, fodd bynnag, y ganolfan lle mae'r ymgeiswyr wedi ymrestru ynddi ("y ganolfan gofrestru") fydd yn gwneud yr holl gofrestradau angenrheidiol. Yn yr achos hwn, rhaid dilyn y drefn ychwanegol a amlinellir isod er mwyn gallu trin yr ymgeiswyr fel un grŵp i bwrpasau cymedroli asesiad mewnol.

### **3.1 Rolau a Chyfrifoldebau – Canolfannau Cydlynu Consortiwm**

Rhaid i'r consortia benodi cydlynnydd i gysylltu â CBAC ar ran yr holl ganolfannau yn y consortiwm. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan addysgu fydd hwn/hon fel arfer. Rhaid i ganolfannau cydlynu lenwi ffurflen gais trefniadau consortia ar-lein ar ein gwefan ddiogel drwy ddewis 'Porth Gweinyddu Canolfannau CGC'. Rhaid cyflwyno'r ffurflen hon erbyn 31 Ionawr ar gyfer bob cyfres haf.

Rhaid i ganolfan gydlynu pob consortiwm nodi'r canolfannau sy'n rhan o'i chonsortiwm a'r unedau/cydrannau y mae hyn yn berthnasol iddynt. Rhaid i ganolfannau cydlynu gysylltu â CBAC os oes unrhyw wybodaeth yn newid rhwng cyflwyno'r ffurflen gais a chyflwyno cofrestradau terfynol.

Rhaid i ganolfannau cydlynu sicrhau bod yr holl waith a gyflwynir gan ganolfannau yn y consortiwm yn cael ei safoni'n fewnol cyn cyflwyno'r sampl i CBAC.

Mae canolfannau cydlynu'n gyfrifol am farcio'r gwaith ac am rannu'r marciau â'r ymgeiswyr sy'n cael eu haddysgu yn y consortiwm hwnnw yn unol â dogfen y CGC ['Hysbysiad i Ganolfannau – Hysbysu ymgeiswyr o'u marciau a aseswyd gan y ganolfan'](#)

Mae canolfannau cydlynu'n gyfrifol am hysbysu'r ganolfan gofrestru o'r marciau a ddyfarnwyd am yr Asesiad Di-arholiad. Rhaid gwneud hyn yn ddigon cynnar i alluogi'r ganolfan gofrestru i fewnbynnu a chyflwyno marciau ar IAMIS erbyn y dyddiad cau swyddogol ac i gynhyrchu'r sampl sydd i'w rannu gyda chydlynnydd y consortiwm. Rhaid i'r ganolfan gydlynu brosesu unrhyw apêl gan ymgeisydd yn erbyn y marc a ddyfarnwyd.

Y ganolfan gydlynu sy'n gyfrifol am sicrhau bod ffurflenni dilysu / taflenni marciau yn cael eu llenwi a'u llofnodi gan yr athro a'r ymgeisydd. Rhaid iddyn nhw gydymffurfio â dyddiadau cau cyflwyno Asesiadau Di-arholiad a dosbarthu samplau / trefnu eu bod ar gael ar yr amser a ragnodwyd i'w cymedroli. Rhaid i'r samplau gyd-fynd â'r rhai a nodir gan IAMIS ar draws pob canolfan yn y consortiwm.

Os oes deg neu lai o ymgeiswyr mewn unrhyw ganolfan sy'n cael eu haddysgu fel rhan o'r consortiwm, rhaid i'r ganolfan gydlynu ddarparu gwaith yr holl ymgeiswyr ar gyfer y ganolfan/canolfannau honno/hynny i'w cymedroli. Rhaid i'r canolfannau cydlynu gysylltu â'r canolfannau yn y consortiwm os oes dros 10 ymgeisydd yn y ganolfan, er mwyn darparu'r sampl penodol sy'n ofynnol i'w gymedroli, fel y manylir ar IAMIS.

Mae'r ganolfan gydlynu'n gyfrifol am drefnu bod samplau ychwanegol ar gael yn brydlon, os bydd CBAC yn gofyn amdanynt. Gall hyn gynnwys rhywfaint o gyswllt â chanolfannau cofrestru, lle y bo'n briodol.

Ar ôl cymedroli, mae'r ganolfan gydlynu yn gyfrifol am gadw'r gwaith yn ddiogel nes bod y cyfnod ar gyfer adolygu'r cymedroli wedi cau.

Wrth gyflwyno cais am adolygiad o gymedroli, rhaid i'r ganolfan gydlynu sicrhau bod pob canolfan yn y consortiwm wedi cytuno â'r cais am adolygiad o gymedroli. Ar ôl derbyn cais am adolygiad o gymedroli, bydd ffurflen ddatganiad yn cael ei hanfon i'r ganolfan gydlynu i'w llenwi. Dylid e-bostio'r ffurflen at dîm Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau CBAC, cyn dechrau'r adolygiad o gymedroli.

Bydd canlyniadau'r adolygiad o gymedroli'n cael eu hanfon i bob canolfan yn y consortiwm.

### 3.2 Rolau a Chyfrifoldebau – Canolfannau Cofrestru

Canolfannau cofrestru sy'n gyfrifol am gysylltu â'r ganolfan gydlynu i ddarparu manylion yr ymgeiswyr a fydd yn cael eu cofrestru fel rhan o'r consortiwm.

Canolfannau cofrestru sy'n gyfrifol am gyflwyno cofrestriadau i CBAC ar yr adeg briodol.

Canolfannau cofrestru sy'n gyfrifol am hysbysu CBAC o unrhyw drefniadau arbennig, megis sefyllfaoedd lle maen nhw'n addysgu eu carfan eu hunain heblaw am un neu'n fwy o'u hymgeiswyr, sy'n cael eu haddysgu yng nghanolfan gydlynu'r consortiwm. Gallai hyn fod am resymau megis materion yn ymwneud â dewisiadau mewnol / amserlennu. Mewn achosion o'r fath mae'n rhaid i ganolfannau cofrestru roi i CBAC fanylion yr ymgeiswyr sydd am gael eu haddysgu yn eu canolfan eu hunain ond y mae eu gwaith i'w farcio mewn canolfan wahanol i'r brif garfan. Dylid gwneud hynny drwy ddefnyddio'r ffurflen '[Trefniadau Consortiwm Rhannol](#)' (a'i hanfon dros e-bost i [consortia@cbac.co.uk](mailto:consortia@cbac.co.uk)

Canolfannau cofrestru sy'n gyfrifol am gysylltu â'r ganolfan gydlynu i ganfod y marciau terfynol i'w mewnbynnu ar IAMIS. Rhaid mewnbynnu marciau ar IAMIS erbyn dyddiadau cau CBAC.

Canolfannau cofrestru, **sydd â mwy na deg ymgeisydd wedi'u cofrestru mewn carfan ar gyfer uned a addysgir yn gyfan gwbl mewn consortiwm**, sydd yn gyfrifol am gysylltu â'r ganolfan gydlynu i'w hysbysu o'r sampl sy'n ofynnol fel y nodwyd gan IAMIS. Rhaid gwneud hyn yn ddigon cynnar i alluogi canolfannau cydlynu i ddarparu'r samplau i CBAC i'w cymedroli, ac erbyn y dyddiad cau penodedig.

Rhaid i bob canolfan yn y consortiwm gytuno ar adolygiad o gymedroli cyn cyflwyno cais. **Rhaid i bob canolfan gofrestru gyflwyno'r cais am yr adolygiad o gymedroli ar gyfer eu canolfan eu hunain.**

I unrhyw bynciau sy'n defnyddio dull E-gyflwyno, bydd codau allwedd yn cael eu darparu i'r canolfannau cofrestru. Cyfrifoldeb y canolfannau yn y consortiwm yw cysylltu â'i gilydd a sicrhau bod gwaith yr holl ymgeiswyr perthnasol yn cael ei uwchlwytho.

## ADRAN 4: NODIADAU AR BYNCIAU UNIGOL

Dylid cyfeirio at y manylebau pwnc am fanylion gofynion cynnwys a chyflwyno'r gwaith.

### 4.1 Manyleb TGAU CBAC

#### Asesu Di-arholiad

Pwnc	Cydran/Uned	Dyddiad cyflwyno a argymhellir ar gyfer marciau	Gwaith wedi'i anfon / uwchlwytho erbyn	Cod yr Uned	Rhif QAN / Rhif Cymwysterau yng Nghymru (QiW)	Darpariaeth y Gyfres	
						Tach	Mehefin
Celf a Dylunio†	Uned 1: Portffolio	31 Mai (dyddiad cyflwyno gwirioneddol)	Amh. (Cymedrolwr Ymweld)	3650N10 – 3656N10	601/8251/9 C00/0780/4	X	✓
Celf a Dylunio†	Uned 2: Aseiniad wedi'i Osod yn Allanol	31 Mai (dyddiad cyflwyno gwirioneddol)	Amh. (Cymedrolwr Ymweld)	3650N20 – 3656N20	601/8251/9 C00/0780/4	X	✓
Amgylchedd Adeiledig**	Uned 2: Creu'r Amgylchedd Adeiledig (Dylunio'r Amgylchedd Adeiledig)	30 Ebrill	5 Mai	3509NA0	C00/3965/5	X	✓
Amgylchedd Adeiledig**	Uned 2: Creu'r Amgylchedd Adeiledig (Dylunio'r Amgylchedd Adeiledig)	30 Ebrill	5 Mai	3509NB0	C00/3965/5	X	✓

Amgylchedd Adeiledig**	Uned 3: Archwilio'r Amgylchedd Adeiledig	30 Ebrill	5 Mai	3509N30	C00/3965/5	X	✓
Cyfrifiadureg††	Uned 3: Datblygu Meddalwedd	30 Ebrill	5 Mai	3500N30	C00/1157/9	X	✓
Dylunio a Thechnoleg†	Uned 2: Dylunio Peirianyddol	5 Mai (dyddiad cyflwyno gwirioneddol)	Amh. (Cymedrolwr Ymweld)	3601N20	C00/1166/7	X	✓
Dylunio a Thechnoleg†	Uned 2: Ffasiwn a Thecstilau	5 Mai (dyddiad cyflwyno gwirioneddol)	Amh. (Cymedrolwr Ymweld)	3602N20	C00/1166/7	X	✓
